# Nid yw trosedd casineb yn iawn.

# Riportiwch ef.

RHIF DI-ARGYFWNG 24 AWR YR HEDDLU
FFONIWCH 999 MEWN ARGYFWNG BOB AMSER
101
POLICE 24 HOUR NON-EMERGENCY NUMBER
IN AN EMERGENCY ALWAYS CALL 999

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

#troseddaucasineb www.report-it.org.uk

# Ydych CHI wedi DIODDEF trosedd casineb?










## Beth yw trosedd casineb?

Trosedd casineb yw trosedd sy'n digwydd i rywun oherwydd pwy ydyn nhw.

**Mae hyn yn cynnwys:**

- galw enwau
- bwrw a dyrnu
- rhywun un gwneud hwyl am eich pen
- bwlio
- rhywun yn codi ofn arnoch
- cael eich eiddo wedi'i ddwyn neu ei ddifrodi

**Gall trosedd casineb ddigwydd i rywun oherwydd:**

- hil
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- canfyddiad rhywun o'i ryw
- anabledd, gan gynnwys anabledd dysgu, anabledd corfforol ac iechyd meddwl

Dylech ddweud wrth yr heddlu os oes trosedd casineb yn digwydd i chi, os ydych chi'n gweld trosedd casineb yn digwydd, neu os ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi dioddef trosedd o'r fath. Os nad ydych chi eisiau dweud wrth yr heddlu, medrwch ei riportio i asiantaethau eraill megis Cymorth i Ddioddefwyr neu grwpiau cymorth cymunedol lleol.




# Sut i ddweud wrth yr heddlu am drosedd casineb

## Yn bersonol:

Gallwch alw heibio i'ch Gorsaf Heddlu leol yn bersonol neu siarad â'ch SCCH neu Swyddog Heddlu cymunedol.

## Dros y ffôn:

Mewn argyfwng, galwch **999**.

Ar gyfer cwestiynau cyffredinol neu er mwyn dweud wrth yr heddlu am drosedd neu ddigwyddiad sydd wedi digwydd, galwch **101**.

Llinell Cymorth i Ddioddefwyr (Rhadffôn 24/7) **0300 30 31 982**



## Ar-lein

- Gweld yn Glir - Gallwch ddweud wrth yr heddlu am drosedd casineb ar **report-it.org.uk**
- Gallwch ddweud wrth Cymorth i Ddioddefwyr ar-lein ar **www.reporthate.victimsupport.org.uk**

## Grwpiau Cymorth:

- Medrwch gysylltu â grwpiau cymorth yn eich ardal leol – ceir rhestr o gysylltiadau grwpiau cymorth ar wefan Gweld yn Glir **www.report-it.org.uk**





## Beth sy'n digwydd pan rydych chi'n riportio trosedd casineb?

Pan fyddwch chi'n riportio trosedd casineb, bydd yr heddlu'n ymchwilio i'r hyn ddigwyddodd a byddant yn cymryd yr hyn rydych chi'n dweud o ddifri.

Bydd yr heddlu'n cefnogi unrhyw un sy'n dweud wrthyn nhw am drosedd casineb a byddant yn ceisio eu gorau i wneud i chi deimlo'n ddiogel.




## Os oes trosedd casineb yn digwydd i chi neu rywun arall:

- mewn argyfwng, galwch 999 bob tro
- ewch i le diogel mor fuan â phosibl
- gwnewch cymaint o sŵn â phosibl er mwyn denu sylw
- ewch i mofyn help
- os ydych chi'n gweld trosedd casineb yn digwydd, peidiwch â rhoi eich hun mewn perygl
- dywedwch wrth yr heddlu beth sydd wedi digwydd bob tro
- os fedrwch chi, ysgrifennwch bob dim rydych chi'n cofio am yr hyn ddigwyddodd - dyddiad ac amser y digwyddiad, disgrifiad o'r person os nad ydych chi'n ei adnabod, a beth ddywedon nhw neu beth wnaethon nhw.




**Nid yw trosedd casineb yn iawn.**
**Riportiwch ef.**

RHIF DI-ARGYFWNG 24 AWR YR HEDDLU
FFONIWCH 999 MEWN ARGYFWNG BOB AMSER
101
POLICE 24 HOUR NON-EMERGENCY NUMBER
IN AN EMERGENCY ALWAYS CALL 999

Cefnogir gan Llywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

#troseddaucasineb www.report-it.org.uk

72466